Arts & Business Cymru

# Canllawiau CultureStep 2026/27

Rhaglen wedi ei gyllido gan **Hodge Foundation** a **Moondance Foundation**, mae CultureStep wedi ei gynllunio i annog nawdd newydd ac i ddatblygu ymgysylltiadau busnes sefydledig â'r celfyddydau.

Trwy CultureStep, mae C&B Cymru yn buddsoddi mewn partneriaethau arloesol o bob math rhwng y ddau sector, gan gyfoethogi prosiectau a chynyddu eu heffeithiolrwydd yn y tymor hir.

## Blaenoriaethau a Meini Prawf

**Rhaid defnyddio buddsoddiad CultureStep i gryfhau a datblygu'r berthynas rhwng y busnes a phartneriaid celfyddydol, drwy weithgarwch celfyddydol.** Rhaid i bob prosiect hefyd fod o fudd i unigolion sydd yn byw yng Nghymru a rhaid i brosiectau fynd i'r afael ag **o leiaf un** o'r blaenoriaethau canlynol:

- **Celf a'r Amgylchedd:** annog partneriaethau sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gan ddangos ymrwymiad i arfer gorau amgylcheddol tra'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau.
- **Celf ac Amrywiaeth:** gweithio gyda'r celfyddydau i hyrwyddo a dathlu amrywiaeth a chynhwysiant, ymgysylltu â'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ar sail ethnigrwydd, rhyw, galluoedd corfforol, hil, credoau crefyddol neu wleidyddol a chyfeiriadedd rhywiol.
- **Celf a Gweithwyr:** annog partneriaethau sy'n cyfuno'r celfyddydau i ddatblygiad gweithwyr ac ar yr un pryd yn ysgogi amgylchedd gweithio mwy creadigol.
- **Celf ac Iechyd a Lles:** gweithio gyda'r celfyddydau i gynorthwyo lles meddyliol, emosiynol a / neu gorfforol.
- **Celf a'r Iaith Gymraeg:** annog partneriaethau sy'n dathlu ac yn hyrwyddo'r iaith, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a chymunedau brofi'r celfyddydau drwy'r Gymraeg.
- **Celf a Phlant:** ymgysylltu â phobl ifanc dan anfantais gymdeithasol a phobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol â'r celfyddydau, gan wneud gwahaniaeth diriaethol i'w bywydau.
- **Celf a Phobl Hŷn:** ymgysylltu â phobl hŷn sy'n agored i niwed, difreintiedig ac ynysig â'r celfyddydau, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.
- **Celf a Threchu Tlodi:** partneru'r celfyddydau i wella bywydau pobl heb adnoddau digonol i ddarparu safon byw derbyniol sy'n eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

**Rhaid i bob prosiect ddangos:**

- Amcanion busnes clir ar gyfer buddsoddi yn y celfyddydau, a fydd yn cael eu cryfhau drwy CultureStep.
- Y potensial i ddatblygu perthynas gynaliadwy glir rhwng y naill barti.
- Gwerth am arian.
- Y gallu i reoli a chyflwyno'r bartneriaeth.
- Cynlluniau priodol ar gyfer credydu a gwerthuso.

## Faint y Gallaf Geisio Amdano?

Mae CultureStep yn annog cynaliadwyedd buddsoddiad busnes ac yn rhoi cymhelliant i noddwyr newydd. Gall partneriaid celfyddydol wneud cais am hyd at **£1 o fuddsoddiad CultureStep am bob £2 o fuddsoddiad gan y partner busnes** ar yr amod bod y bartneriaeth naill ai:

- ✓ Yn ei blwyddyn gyntaf
- ✓ Yn ei thair blynedd gyntaf ac mae buddsoddiad y busnes wedi aros yr un fath bob blwyddyn neu wedi cynyddu ym mlwyddyn 2 ac/neu 3, neu
- ✓ Wedi bodoli am fwy na 3 blynedd ac mae buddsoddiad y busnes wedi cynyddu o 20% o leiaf ym mlwyddyn 4

Os, ar ôl tair blynedd, mae buddsoddiad y busnes wedi aros ar yr un lefel neu wedi cynyddu o lai na 20%, uchafswm buddsoddiad CultureStep yw £1 am bob £3 a fuddsoddir gan y partner busnes.

**Y lleiafswm o fuddsoddiad gan fusnes sy'n ofynnol yw £1,000.**

**Lleiafswm buddsoddiad CultureStep yw £500. Uchafswm y buddsoddiad trwy CultureStep yw £15,000.**

## Sut Mae'n Gweithio?

Neilltuir Rheolwr C&B Cymru i bawb sy'n gwneud cais i CultureStep i gynghori'r ddau bartner ar y broses. Caiff y penderfyniadau eu gwneud gan Banel CultureStep, sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o fyd busnes, y celfyddydau a'r sector cyhoeddus a chaiff ei gadeirio gan Brif Weithredwr C&B Cymru. Fe gyhoeddir dyddiadau'r cyfarfodydd a therfynau amser gwneud cais ar wefan C&B Cymru – https://cab.cymru/culturestep-2/.

Unwaith i chi ddarllen y canllawiau hyn, mae'r broses o wneud cais ar gyfer CultureStep fel a ganlyn:

- ✓ Cysylltwch â C&B Cymru i gael trafodaeth gychwynnol am eich prosiect. Os ydych yn gymwys i wneud cais, bydd C&B Cymru yn e-bostio ffurflen gynnig i chi.
- ✓ Cwblhewch y ffurflen gais mewn ymgynghoriad gyda'ch partner a'i gyflwyno i C&B Cymru dros e-bost, dim hwyrach na'r dyddiad cau a gyhoeddwyd.
- ✓ Bydd C&B Cymru yn eich hysbysu am ganlyniad eich cynnig o fewn 2 ddiwrnod gwaith i gyfarfod y Panel.
- ✓ Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn Amserlen a Llythyr Cynnig gan roi manylion am unrhyw amodau i'w bodloni cyn y gellir talu.

Sylwch y bydd C&B Cymru yn adolygu prosiectau fesul achos unigol. Mae penderfyniad Panel CultureStep yn derfynol. Nid oes proses ar gyfer apelio.

## Taliad

Mae angen tystiolaeth o daliad gan y Partner Busnes cyn rhyddhau unrhyw fuddsoddiad CultureStep. Pe bai'r Partner Busnes yn talu mewn rhandaliadau, bydd y ganran hon yn cael ei chyfateb gan C&B Cymru, hyd at 70%, ar gyfer y rhandaliad cyntaf.

Bydd buddsoddiadau CultureStep dros £1,000 fel arfer yn cael eu rhannu'n 70% pan gyflwynir y Datganiad wedi'i lofnodi, tystiolaeth o daliad ac unrhyw amodau datganedig eraill a 30% ar ôl derbyn adroddiad gwerthuso a datganiad ariannol boddhaol.

Os yw buddsoddiad CultureStep yn llai na £1,000, gwneir taliad llawn ar ôl derbyn adroddiad gwerthuso boddhaol, prawf o daliad gan y Partner Busnes a datganiad ariannol.

## Cymhwyster ac Eithriadau y Rhaglen

- ✓ Rhaid i brosiectau cymwys nodi arian busnes newydd y tu hwnt i unrhyw berthynas fasnachol sy'n bodoli rhwng y partneriaid.
- ✓ Rhaid i arian ddod o gronfeydd y busnes ei hun, nid cronfeydd trydydd parti. Ystyrir gwariant ar farchnata, cysylltiadau cyhoeddus neu hysbysebu lle mae'n cefnogi'r prosiect yn benodol.
- ✓ Dim ond os yw eu harian yn deillio o weithgareddau busnes y mae Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn gymwys.
- ✓ Gall partneriaid celfyddydol wneud cais i CultureStep am hyd at 12 mis ar ôl i fusnes fuddsoddi yn ei waith.
- ✓ Dim ond yng nghost pris nwyddau, tocynnau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu ar gyfer prosiect y gall C&B Cymru fuddsoddi. Os caiff tocynnau eu hariannu ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect, bydd angen strategaeth i sicrhau eu bod yn manteisio arnynt. Efallai y bydd angen tystiolaeth o dderbynebau tocynnau / data swyddfa docynnau cyn rhyddhau arian.

**Ni all CultureStep fuddsoddi mewn:**

- Costau ôl-weithredol.
- Cyflogau staff. Fodd bynnag, mae cost cyflogi staff llawrydd i gyflwyno gweithgaredd celfyddydol yn gymwys.
- Digwyddiadau cymdeithasol, partïon a chostau arlwyo.

Arts & Business Cymru

# Buddsoddiadau Mewn Nwyddau

Gall buddsoddiad mewn nwyddau gael ei gynnwys mewn prosiect fel elfen o gyfraniad y busnes.

Bydd y panel yn ystyried partneriaethau sy'n cynnwys 100% o fuddsoddiad mewn nwyddau ond mae rhaid i gynigion o'r fath ddangos cost gwirioneddol i'r busnes.

Sylwch, nid yw amser staff busnes i gymryd rhan mewn prosiect yn gymwys fel buddsoddiad mewn nwyddau.

**Buddsoddiad Mewn Nwyddau wedi'i Gynnwys**

- ✓ Gwasanaethau proffesiynol a ddarperir i gynorthwyo’r prosiect e.e. Cyfreithiol neu Gyfrifeg.
- ✓ Cynhyrchion a roddwyd i gynorthwyo'r prosiect.
- ✓ Refeniw a gollir yn sgil cyfraniadau a wneir at y prosiect, e.e. lleoliadau yn cael eu rhentu.
- ✓ Addasu adeiladau neu ddarparu mannau neu gyfleusterau.

**Cyfyngiadau ar y Partner Celfyddydol**

- ✓ Mae CultureStep yn agored i aelodau celfyddydol C&B Cymru yn unig.
- ✓ Dylai sefydliadau fod naill ai’n elusen gofrestredig neu’n sefydliad a sefydlwyd yn gyfreithiol fel cwmni dosbarthu di-elw. Bydd sefydliadau celfyddydol masnachol yn cael eu hasesu fesul achos unigol.
- ✓ Gall artistiaid unigol fod yn gymwys lle maent yn aelodau o gymdeithasau proffesiynol perthnasol neu yn gallu cyflwyno enwau 2 ganolwr. Gall C&B Cymru ofyn am argymhelliad Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Cyfyngiad Daearyddol**

Gall CultureStep fuddsoddi mewn partneriaid celfyddydol y tu allan i Gymru, cyn belled â bod y gweithgaredd hwnnw o fudd uniongyrchol i bobl Cymru.

**Cyfyngiadau’r Rhaglen**

Gall partner celfyddydol neu fusnes wneud cais i CultureStep hyd at 3 gwaith mewn un flwyddyn ariannol ar gyfer prosiectau ar wahân, ar yr amod nad yw’r buddsoddiad cyfan gan C&B Cymru yn fwy na £15,000.

**Ceisiadau Cydamserol**

Ni all unrhyw sefydliad wneud cais am fuddsoddiad C&B Cymru fel y partner celfyddydol a busnes yr un pryd.

**TAW**

Os bydd derbynnydd CultureStep yn darparu gwasanaethau sy'n destun TAW mewnbwn, ni fydd unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu gan C&B Cymru. Pan fydd busnes yn cael budd-daliadau nawdd ar gyfer eu buddsoddiad ystyrir bod hyn yn gyfnewid gwasanaethau ac felly mae TAW yn daladwy gan y busnes.

Mae CultureStep yn grant nad yw'n ddarostyngedig i TAW allbwn.

**Dilysrwydd Cynnig**

Oni bai y cytunir yn wahanol gyda C&B Cymru, mae’n rhaid i bob derbynnydd:

- ✓ Llofnodi a dychwelyd yr amserlen o fewn 1 mis o’i roddi, a dechrau’r prosiect o fewn 6 mis wedi hynny.
- ✓ Cwblhau’r prosiect o fewn 6 mis o’r dyddiad gorffen cytunedig, o fewn ffrâm amser o 18 mis.
- ✓ Dychwelyd y gwerthusiad ac adroddiadau ariannol terfynol i C&B Cymru o fewn 3 mis i ddiwedd y prosiect.

Bydd prosiectau sy’n methu â chydymffurfio â’r amser a gytunwyd yn colli eu hawl i’w buddsoddiadau olaf. Mae C&B Cymru yn cadw’r hawl i dynnu buddsoddiadau yn ôl, neu gofyn am ad-daliad, yn gyfan neu yn rannol.

**Arweiniad Credydu Buddsoddiad**

Mae'n amod buddsoddi bod yr holl dderbynwyr yn cydnabod cefnogaeth CultureStep yn gyhoeddus, yn ogystal â chefnogaeth y partner(iaid) busnes. Anfonir canllawiau at ymgeiswyr a gall C&B Cymru roi cyngor ar y ffordd orau o wneud hyn.

Arts & Business Cymru

**Adrodd Ariannol a Gwerthusiad**
Mae'n rhaid i holl dderbynwyr CultureStep baratoi adroddiadau gwerthuso ac ariannol manwl yn nodi sut y defnyddir y buddsoddiad ac unrhyw wybodaeth arall a ofynir yn rhesymol gan C&B Cymru. Bydd canllawiau yn cael eu hanfon at ymgeiswyr gyda'r ffurflen gynnig. Gellir wneud cais i dalu cost gwerthusiad fel rhan o gynnig.

Ni fydd C&B Cymru yn edrych yn ffafriol ar sefydliadau / unigolion sydd wedi derbyn buddsoddiad o'r blaen ac wedi methu cynhyrchu adroddiad gwerthuso priodol.

**Recordio Prosiectau**
Dylai prosiectau CultureStep gael eu dogfennu yn weledol (e.e. ffotograffiaeth, film ayyb) a'i rhannu gyda C&B Cymru fel y gall etifeddiaeth barhaol gael ei greu.

**Gwobrau Celfyddydau & Busnes Cymru**
Disgwylir i'r partner celfyddydol o bob buddsoddiad CultureStep gyflwyno enwebiad ar gyfer Gwobrau C&B Cymru, ar yr amod bod pob parti yn ystyried bod y prosiect yn llwyddiannus. Ni fydd C&B Cymru yn edrych yn ffafriol ar sefydliadau celfyddydol / artistiaid sydd wedi derbyn buddsoddiad yn flaenorol ac wedi methu ag enwebu.